**GRŴP CYNEFIN**

**DISGRIFIAD SWYDD**

# RHEOLWR RHAGLEN

| | |
|---|---|
| **Adran:** | Adnoddau |
| **Tîm** | Gwella Busnes |
| **Yn atebol i:** | Pennaeth Gwella Busnes |
| **Yn gyfrifol am:** | Rheolwr Prosiect, Datblygwr Adroddiadau Power BI |
| **Lleoliad y swydd:** | Swyddfa Dinbych/ Penygroes/ Gartref |

## CRYNODEB SWYDD:

Bydd y Rheolwr Rhaglen yn gyfrifol am oruchwylio, cyd-gordio, rheoli buddion, a mewnbynnu newid o fewn rhaglenni gwaith strategol bwysig o fewn adran newydd Gwella Busnes, gan sicrhau aliniad gyda nodau ac amcanion ehangach Grŵp Cynefin.

Mae’r swydd yn ymwneud a chynllunio a gweithredu rhaglen, mewnbynnu newid, a sicrhau bod rhaglenni a phrosiectau yn gweithredu yn effeithiol, o fewn y gyllideb, ac o fewn amser.

Bydd hefyd gofyn i’r Rheolwr Rhaglen rheoli rhai prosiectau yn uniongyrchol.

## DIBEN Y SWYDD:

- Arwain a rheoli'n effeithiol y gwaith o weithredu rhaglenni a prosiectau er mwyn cyrraedd nodau ac amcanion o fewn Cynllun Corfforaethol newydd Grŵp Cynefin, sydd yn cynnwys sawl ffrwd waith gwella busnes, gan gynnwys y Rhaglen Drawsnewid Digidol.

- Arwain ar gynlluniau mewnosod strategaethau newid busnes.

- Arwain a chyd-gordio adolygiadau gwasanaeth gan ddilyn egwyddorion “LEAN” ar draws y Grŵp.

- Cyfathrebu a chyfrannu'n effeithiol fel rhan o'r Grŵp Rheoli wrth weithredu cynlluniau gweithredu Grŵp Cynefin, gan weithio mewn partneriaeth â'r tîm ehangach a sefydliadau a rhanddeiliaid allanol.

- Arddangos arweiniad a chyfeiriad i gydweithwyr i sicrhau bod y busnes yn parhau i ddatblygu gwasanaethau o ansawdd uchel i gwsmeriaid, gan gyfrannu at ddatblygu strategaethau, polisïau a gweithdrefnau amrywiol ac effeithiol.

**CYFRIFOLDEBAU'R SWYDD:**

1. Diffinio, datblygu ac arwain ar weithredu rhaglenni gwaith Gwella Busnes y cytunwyd arnynt gydag effaith sefydliadol ac ariannol sylweddol;
2. Datblygu a gweithredu prosiectau sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Corfforaethol newydd Grŵp Cynefin, gan gynnwys y Rhaglen Drawsnewid Digidol yn llwyddiannus er mwyn sicrhau bod effeithlonrwydd a gwelliannau i wasanaethau/perfformiad yn cael eu cyflawni ar gyfer ein tenantiaid a chwsmeriaid;
3. Defnyddio egwyddorion rheoli rhaglen (megis *Managing Succesful Programmes*) i weithredu rhaglenni, a blaenoriaethu strategaethau a gweithdrefnau rheoli a mewnosod newid er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn rhan o'r siwrne gwella busnes.
4. Cyd-weithio yn agos gyda'r Pennaeth Gwella Busnes a'r Adran Gwella Busnes ehangach i flaenoriaethu rhaglenni a prosiectau i wella medrau Grŵp Cynefin i gasglu a dadansoddi data, gan gynyddu galluedd y grŵp i fod yn sefydliad sydd yn gwneud penderfyniadau ar sail data.
5. Cyd-weithio yn agos gyda'r Pennaeth Gwella Busnes i sefydlu a gweithredu Fframwaith Rheoli Perfformiad a System Rheoli Busnes newydd.
6. Arwain ar systemau rheoli perfformiad a gwella gwasanaeth drwy ddadansoddi, craffu a herio'r wybodaeth er mwyn galluogi Grŵp Cynefin i gyrraedd amcanion y Cynllun Corfforaethol. Bydd hyn yn cynnwys arwain ar y gwaith o ddatblygu data a deallusrwydd busnes a chefnogi y Pennaeth Gwella Busnes wrth gyflwyno adroddiadau data perfformiad i'r Prif Dim Arweinyddiaeth, y Bwrdd Rheoli, a sefydliadau allanol, gan adnabod agweddau o bryder, a mannau o bwys.
7. Cynnal gwaith cynllunio a rhagweld adnoddau i sicrhau y gellir cyflwyno'r rhaglenni a phrosiectau gwaith ar amser ac o fewn i'r gyllideb; gan ymrwymo i ddatblygu medrau casglu a dadansoddi data.
8. Cyd-weithio yn agos gyda aelodau'r tîm i ehangu medrau deallusrwydd busnes y grwp, gan gynnwys elfennau perfformiad a data.
9. Herio, dylanwadu, grymuso a gweithio mewn partneriaeth ag uwch arweinwyr, uwch reolwyr a staff ar draws Grŵp Cynefin er mwyn cyflawni blaenoriaethau strategol drwy gyflawni prosiectau a rhaglenni yn llwyddiannus;
10. Sicrhau bod prosiectau'n cael eu comisiynu yn y fath fodd fel eu bod yn gyson â'r prosesau System Rheoli Busnes, gan gynnwys ymrwymiad Grŵp Cynefin i gydraddoldeb;
11. Sicrhau bod rhaglenni a phrosiectau Gwella Busnes yn dilyn methodoleg rheoli rhaglenni (a phrosiectau) effeithiol ac yn cyflawni'n llwyddiannus drwy ddisgyblaeth dda o ran rheoli rhaglen, prosiectau, llywodraethu cryf a rheoli risgiau a materion yn rhagweithiol;

12. Rheoli cyllideb y rhaglen i sicrhau gwerth am arian drwy ddefnyddio adnoddau'n effeithiol a rheoli'r gwariant a ysgwyddir gan y rhaglen. Dylanwadu ar wariant y gyllideb ar brosiectau trawsnewid;
13. Casglu tystiolaeth sy'n dangos elw ar fuddsoddiad er mwyn dilysu'r ymdrech i newid ar draws y rhaglen;
14. Nodi arfer gorau a sganio gorwelion yn y sector i nodi cyfleoedd i wella neu ddatblygu gwasanaethau;
15. Efallai y bydd Pennaeth Gwella Busnes yn ei gwneud yn rhesymol i chi ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau tebyg eraill. Gall y rhain gael eu hamrywio o bryd i'w gilydd i ddiwallu anghenion y Grŵp.
16. Bydd deilydd y swydd gyda cyfrifoldebau rheolwr llinell, yn rheoli Rheolwr Prosiect.

**CYFRIFOLDEBAU CORFFORAETHOL:**

- Cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Grŵp Cynefin yn gyffredinol er mwyn darparu gwasanaeth rhagorol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.
- Gweithredu yn unol a gwerthoedd Grŵp Cynefin o fod yn Dryloyw, Cynhwysol a Blaengar.
- Fel cynrychiolydd Grŵp Cynefin, i hyrwyddo a chynnal agwedd a delwedd gadarnhaol bob amser.
- Hyrwyddo gwerthoedd Grŵp Cynefin yn gadarnhaol, gan herio ffyrdd traddodiadol o weithio, ymddygiad neu sylwadau gwrthgyferbynnu.
- Sicrhau y ceisir adborth yn weithredol er mwyn llywio'r gwaith o wella gwasanaethau i gwsmeriaid a datblygu ffyrdd mwy effeithlon ac effeithiol o weithio.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheolau Sefydlog, polisïau a gweithdrefnau Grŵp Cynefin, safonau cywirdeb sy'n ymwneud â statws elusennol y sefydliad a Rheoliad Llywodraeth Cymru.
- Defnyddio technoleg a systemau TGCh yn effeithiol drwy ddatblygu sgiliau priodol, mabwysiadu prosesau busnes effeithlon, a chynnal data'n ddiogel ac yn gywir.
- Cydweithio mewn gweithgorau traws-swyddogaethol lle bo angen.
- Ymrwymiad i gyfranogi tenantiaid ym mhob agwedd o’r gwaith.

Nid yw’r Disgrifiad Swydd uchod yn rhestr holl gynhwysfawr o ddyletswyddau a chyfrifoldebau’r swydd.

Bydd gofyn i ymgymryd â dyletswyddau eraill o fewn graddfa’r swydd o bryd i’w gilydd mewn trafodaeth â’r Rheolwr.

Adolygir y disgrifiad swydd yn rheolaidd ac yn unol â gofynion y gwasanaeth.

Caiff unrhyw newid a fwriedir ei drafod gyda deilydd y swydd.

**CYFRIFOLDEBAU PERSONOL:**

Gweithredu yn unol â gwerthoedd Grŵp Cynefin:-

| | |
|---|---|
| **Tryloyw** | Rydyn ni’n agored, yn glir, a bob amser yn gweithredu gyda gonestrwydd |
| **Cynhwysol** | Rydyn ni’n meithrin amgylchedd lle mae pob unigolyn yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei barchu a’i gefnogi |
| **Blaengar** | Rydyn ni’n ddeinamig, yn wydn, a byddwn yn cwrdd â heriau a chyfleoedd y dyfodol yn hyderus |

Sicrhau cyfrinachedd, diogelwch a chywirdeb data
Hyrwyddo a gweithredu yn unol â’r Polisi Iechyd a Diogelwch
Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd o’r gwaith

**PRIF GYSYLLTIADAU’R SWYDD:**

<u>Mewnol</u>: Cyfarwyddwr Adnoddau, Pennaeth Gwella Busnes, Tim Arweinyddiaeth, Aelodau Bwrdd, Rheolwyr a staff ar draws Grŵp Cynefin.

<u>Allanol</u>: Swyddogion Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Partneriaid o fewn y Maes Tai, sefydliadau cyhoedddus a gwirfoddol.

**AMGYLCHEDD GWAITH ARFEROL:**

Bydd y swydd yn gymysgedd o weithio gartref a mewn swyddfa gyda'r angen i deithio'n lleol.

Efallai y bydd angen teithio a mynychu digwyddiadau arwyddocaol y tu allan i'r ardal leol yn ôl y gofyn. Mae defnyddio systemau a thechnoleg TGCh yn rheolaidd yn un o ofynion y swydd. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio'n hyblyg i sicrhau bod anghenion y busnes yn cael eu diwallu.

**MANYLEB PERSON**
**RHEOLWR RHAGLEN**
**Ystyrir yr holl feini prawf yn hanfodol oni nodir fel dymunol**

**Addysg a Chymwysterau**:

- Gradd (neu gymhwyster cyfatebol) yn y maes tai, busnes, systemau gwybodaeth neu unrhyw faes arall sy’n berthnasol i’r busnes.
- Profiad rheolaeth rhaglenni a phrosiectau, a rheoli a mewnosod newid.
- Meddu ar gymhwyster proffesiynol mewn rheolaeth rhaglenni megis *Managing Succesful Programmes* (MSP), a chymhwyster rheoli prosiectau megis APM neu Prince 2.

**Profiad Proffesiynol:**

- Profiad o rheoli a darparu rhaglenni a phrosiectau llwyddiannus yn arwain at newidiadu positif, gan gynnwys rhaglenni gwella a thrawsnewid. Byddai profiad o weithredu Rhaglenni Trawsnewid Digidol a phrosiectau systemau gwybodaeth o fantais.
- Profiad a gwybodaeth o rheoli a mewnosod stratgaethau a gweithredfanu rheoli newid
- Profiad o weithio ar lefel strategol a gweithredol
- Meddu ar sgiliau dadansoddol rhagorol, gan ddefnyddio dulliau ansoddol a meintiol
- Profiad o gynnal ymgynghoriadau rhanddeiliaid a chynlluniau cyfathrebu
- Gwybodaeth gyfredol am y sector tai cymdeithasol neu'r trydydd sector ehangach

**Gwybodaeth a Sgiliau:**

- Y gallu i fod yn rhagweithiol ac yn meddwl yn greadigol
- Y gallu i rhagweld a datrys problemau
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol sy'n addas ar gyfer pob cynulleidfa
- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau cynnydd a chynlluniau rhaglen a phrosiectau i lefel uchel, gan ddefnyddio medallwedd megis Microsoft Excel a Microsoft Project
- Y gallu i goladu a dehongli data a gwybodaeth reoli yn effeithiol a gwneud argymhellion rhesymegol i gefnogi cynllunio busnes a gwella gwasanaethau.
- Y gallu i reoli amrywiaeth o dasgau a gweithio dan bwysau i amserlenni tynn a gallu blaenoriaethuu a threfnu tasgau'n effeithiol

Yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn y lefelau canlynol neu lefelau uwch:

Deall: Yn gallu dilyn sgyrsiau arferol sy’n ymwneud â’r gwaith, yn y ddwy iaith rhwng siaradwyr rhugl.
Siarad: Yn gallu cynnal sgwrs go fanwl am faterion gwaith arferol yn y ddwy iaith.
Darllen: Yn gallu darllen a deall deunydd cyffredin, a deunydd technegol gyda geiriadur, yn y ddwy iaith.
Ysgrifennu: Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygyddol, yn y ddwy iaith.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth:**

- Y gallu i weithio’n effeithiol gan ganolbwyntio ar ganlyniadau
- Ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid
- Meddu ar arddull gydweithredol o weithio

| **Crynodeb o’r Telerau ac Amodau<br>Rheolwr Rhaglen** | |
|---|---|
| **Math o gytundeb** | Parhaol |
| **Cyflog Cystadleuol** | Band G, Pwynt 1-5 £44,288- £49,848<br>Cynigir y swydd ar bwynt isaf y band<br>Telir cyflog ar yr 20fed o bob mis |
| **Gwyliau:** | 30 diwrnod y flwyddyn ynghyd â’r gwyliau banc statudol a’r cyfnod rhwng y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd |
| **Teithio:** | Defnyddiwr car achlysurol |
| **Pensiwn:** | Mae Grŵp Cynefin yn cynnig darpariaeth pensiwn trwy Gynllun Social Housing Pension Scheme (SHPS) |
| **Cyfnod prawf:** | 6 mis |
| **Oriau gweithio a threfniant gwaith** | 35 awr yr wythnos<br>Llun - Gwener<br>Gweithredir cynllun fflecsi |
| **Tâl salwch** | Gweithredir cynllun tâl salwch galwedigaethol. |
| **Datblygiad Personol** | Os oes gennych gymwysterau proffesiynol a’ch bod yn talu ffioedd proffesiynol blynyddol i’ch corff aelodaeth, byddwn yn talu un o’r rhain bob blwyddyn i’ch helpu i aros yn gysylltiedig a’r wybodaeth a’r addysg ddiweddaraf gan eich corff proffesiynol. Rydyn ni hefyd eisiau i’n holl gydweithwyr fwynhau buddion dysgu gydol oes, felly os ydych chi’n gweithio gyda ni byddwn ni’n buddsoddi ynoch chi fel hyn hefyd! |
| **Absenoldebau Arbennig** | 5 diwrnod pro rata gyda thâl mewn unrhyw gyfnod o 12 mis i ofalu am ddibynyddion penodol<br>2 diwrnod pro rata gyda thâl i briodi, i symud tŷ, i ysgaru.<br>Amser credyd rhesymol ar gyfer apwyntiadau meddygol.<br>Hyd at 10 diwrnod pro rata gyda thâl ar achlysur o brofedigaeth.<br>Hyd at 3 mis pro rata gyda thâl i ofalu am berthynas agos gydag afiechyd terfynol |
| **Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS)** | Gwiriad sylfaenol |